AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Synod Cymru

Rhifyn 225 Awst – Medi 2020

# Gwyliedydd





# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Dydd Llun 1af o Fehefin 2020. Roeddwn i mewn cyfarfod o Gadeiryddion Taleithiau'r Eglwys Fethodistaidd ar-lein, trwy 'Zoom'. Fy niwrnod cyntaf yn ôl yn dilyn y cyfnod sabothol yr ysgrifennais amdano yn y *Gwyliedydd* diwethaf.

"Croeso nôl i Jennie," meddai Sheryl o Lerpwl, Cadeirydd y Cadeiryddion. "Ti'n mynd ar sabothol, ac edrycha beth sy'n digwydd!" Gwenodd pawb, ond roedd y jôc yn chwerw-felys. Doedd fy sabothol, o Ddydd Mercher y Lludw tan Sul y Pentecost, ddim byd tebyg i beth roeddwn wedi ei gynllunio. Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma, does dim byd wedi bod yn unol â'r hyn roedd neb wedi ei gynllunio!

Er imi gael treulio wythnos ar encil efo Cymdeithas Mair a Martha yn Nyfnaint ac ymweld ag Epworth, man geni John Wesley, ni fu'n bosibl mynd ar bererindodau eraill. Roeddwn wedi gobeithio treulio'r Wythnos Fawr a'r Pasg yn Durham, yn addoli yn yr eglwys gadeiriol. Collais y cyfle i gerdded ar fy mhen fy hunan y 62.5 milltir o Melrose i ynys Lindisfarne ar hyd Ffordd St Cuthbert, ac i fynd i Ganolfan Beuno Sant lle roeddwn wedi gobeithio diweddu'r cyfnod sabothol.

Ond nid yw'r golled a gefais yn ddim o'i chymharu â cholled cynifer o bobl yn ystod yr un cyfnod – colli bywyd, iechyd, anwyliaid, incwm. Colli addysg, dathliadau arbennig, cymdeithas Gristnogol yn ein haddoldai a llawer o bethau eraill.

Yn sicr fe elwais ar gael amser yn ystod y cyfnod hwn i ddarllen llyfrau ar thema'r sabothol, sef arweinyddiaeth, yn y mans – a diolch i'r Synod am brynu mans mewn ardal mor braf – er bod popeth mor wahanol i'r disgwyl, i mi fel i bawb. Unwaith eto hoffwn ddweud mor ddiolchgar ydw i i'r Eglwys Fethodistaidd am y rhodd – a'r ddisgyblaeth! – o sabothol. Yn ôl y drefn, bydd yr un nesaf mewn saith mlynedd. Gawn ni weld.

Yn sicr, mae'r byd wedi newid yn aruthrol ers Dydd Mercher y Lludw. Mae'r eglwys wedi newid hefyd, a bydd yn parhau i newid er na wyddom ar hyn o bryd sut yn union. Rwyf yn ddiolchgar i'r Parchedigion Ian Morris a Trevor Hoggard, Is-Gadeirydd y Synod ac Arolygydd Cylchdaith Cymru, ac i swyddogion y Synod, am ofalu bod bywyd y Synod yn mynd yn ei flaen yn ystod wythnosau cynnar y pandemig.

Llawenydd wrth ddod yn ôl o'r sabothol, er gwaethaf yr holl dristwch a phryder, oedd dysgu am yr holl ofal bugeiliol ac addoliad oedd yn mynd ymlaen. Mae gweinidogion a phregethwyr wedi paratoi gwasanaethau ar-lein ac i'w dosbarthu ar bapur, ac mae llawer o bobl wedi manteisio ar wasanaethau ar y teledu a'r radio. Bu'r gymuned Gristnogol ar wahân yn gorfforol ond nid mewn ysbryd – nac yn yr Ysbryd! Mae'r eglwys yn gweithio yn y gymdeithas hefyd, gan ofalu yn ymarferol am ffrindiau a chymdogion. Uwchlaw popeth, mae Cristnogion yn dod ag anghenion y byd gerbron Duw mewn gweddi. Beth bynnag a ddaw, bydd angen ein gweddïau bob amser. Mae'r byd yn cael ei gynnal yng nghariad Duw a gweddïau ei bobl.

Bydd yn hanfodol dilyn y canllawiau niferus i sicrhau diogelwch pawb wrth inni ailagor ein capeli (gweler www.methodist.org/coronavirus). Ar yr un pryd rydym wedi dysgu o'r newydd, nad dim ond ar yr adegau y cawn gyfarfod yn ei dŷ y mae eglwys Duw yn bodoli. Diolch fo i Dduw.

I fynd yn ôl i Gyfarfod y Cadeiryddion! Gofynnodd un o fy nghydweithwyr, "A fydd capeli yn cau oherwydd beth sydd wedi digwydd efo'r feirws?" Amneidiodd llawer a oedd yn bresennol, o bob rhan o Brydain. Wrth gwrs mae gennym ni yn Synod Cymru a'r Gylchdaith benderfyniadau heriol eto i'w hwynebu ynghylch ein dyfodol, wedi inni orfod gohirio cyfarfod y Synod oedd i'w gynnal ym mis Ebrill. Ond mae heriau tebyg yn wynebu capeli a chylchdeithiau trwy'r Cyfundeb. Mae'r eglwys hefyd yn cael ei heffeithio gan ganlyniadau ariannol a dynol COVID-19, sy'n taro'r byd i gyd.

Mae llawer wedi siarad yn barod am y cyfleoedd fydd, i'r ddynolryw adeiladu gwell byd wedi inni ddod drwy'r argyfwng presennol. Mynegir dymuniad i weld cyfiawnder ynglŷn â'r hinsawdd a hil, oherwydd awydd pobl i osgoi mynd yn ôl i anghyfiawnderau'r 'hen normal' ond creu yn hytrach well byd i bob un o blant annwyl Duw. Mae cyfle i'r gymuned Gristnogol weithredu a gweneud pethau mewn ffyrdd newydd er mwyn cyfleu cariad, tangnefedd a chyfiawnder Duw, gan gyfathrebu'n well â'n cymdeithas ni heddiw. Sut ydym ni am ymateb? Yn nerth Duw, gobeithiaf y byddwn yn ddewr ac yn greadigol. Yng nghariad Duw, nid oes gennym ddim byd i'w golli, a phopeth i'w ennill.







# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 225**
**AWST – MEDI 2020**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
1 MEDI 2020

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr: Mae Bywydau Duon o Bwys gan Iolo Penri




## Rhoddion

Diolch yn gynnes iawn unwaith eto i unigolion ac eglwysi am bob rhodd tuag at gyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.

| | |
|---|---|
| • Y Tabernacl, Penrhyndeudraeth | £20-00 |
| • Eglwys Annibynnol Bethel | £25-00 |
| • Marion Thomas, Penmachno | £10-00 |
| • Ardal De Gwynedd | £80-00 |
| • Barbara Thomas, Penmachno | £10-00 |
| • Dienw | £50-00 |
| • Shôn ac Eirlys Dwyryd | £25-00 |
| • Marian Jones, Radur, er cof annwyl am Dilwyn ac am y Parchg a Mrs D R Evans | £30-00 |
| **Cyfanswm** | **£250-00** |

## Y Gynhadledd

Cyfarfu'r Gynhadledd Fethodistaidd eleni fel bob blwyddyn – nid yn Telford fel y bwriadwyd ond ar-lein. Er bod pethau'n digwydd mewn ffordd mor wahanol i'r arfer, bu modd cyd-addoli, trafod a chynnal pleidleisiau.

Un o'n cynrychiolwyr ni yn y Gynhadledd oedd Arolygydd Cylchdaith Cymru, y Parchg Ddr Trevor Hoggard. Meddai Trevor: **"Mae rhai newidiadau sylweddol yn dod a fydd yn effeithio arnom yn lleol ac efallai nad ydym yn hoffi rhai ohonynt, ond bydd yn rhaid i ni fyw gyda nhw. Un newid posib yw'r rheol sy'n dweud y gall eglwys aros yn eglwys cyhyd â bod chwe aelod yn byw yn lleol. Gellid newid hynny o 2022 ymlaen i'w wneud yn ddeuddeg aelod o leiaf, efallai hyd yn oed bump ar hugain. Bydd yn rhaid i unrhyw eglwys sy'n disgyn o dan y nifer y cytunwyd arno ymuno â'u cymydog Methodistaidd agosaf. Gallem weld eglwysi yn uno – un eglwys gyda sawl cynulleidfa a sawl adeilad. Bydd raid i synodau ganfod ffyrdd o uno â'i gilydd, gan ffurfio cyrff rhanbarthol newydd a llai ohonynt.**

**"Felly beth bynnag a ddewiswn ar gyfer dyfodol ein cylchdaith mewn synod ym mis Medi, bydd y dyfodol yn gymysgedd o bethau yr ydym yn eu derbyn yn hapus a phethau sy'n cael eu gorfodi arnom gan awdurdodau eglwysig, amgylchiadau lleol neu bwysau ariannol.**

***"'Gwyddom fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu' (Rhufeiniaid 8.28).* Mae yna ddigon o sefyllfaoedd lle rydyn ni'n ymdrechu i weld sut mae'n bosib dod o hyd i unrhyw beth da yng nghanol trychineb. Ond siaradai Paul o brofiad personol. Felly p'un ai ydym ni'n hoffi'r holl newidiadau yr ydym yn eu hwynebu ai peidio, gadewch inni geisio dod o hyd i'r da a'r cadarnhaol. Yng nghanol dryswch a cholled gadewch inni geisio sianeli o ras Duw. Gadewch inni geisio bod yn bobl atgyfodiad."**

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts



Heddiw dinas ag ynddi boblogaeth oddeutu 37,000 ynddi yw Sinope ar guldir Ince Burum yn y man mwyaf gogleddol o Dwrci ar lan y Môr Du. Yno ganwyd Marcon (85-160 OC), a wnaeth ei ffortiwn fel perchennog llongau ond a ddatblygodd i fod yn athro dylanwadol iawn yn Rhufain. Heb flewyn ar ei dafod fe ddywedodd wrth ei ddisgyblion nad oedd angen yr Hen Destament ar Gristnogion. Wedi'r cyfan meddai, nid Iddewon ydym a chan fod ein crefydd wedi ei seilio ar weinidogaeth a gwaith Iesu Grist, fe ddylai'r Efengylau Cristnogol fod yn ddigon inni. Yn ôl Marcon dylid dileu'r Hen Destament a thynnu pob cyfeiriad ato o'r Testament Newydd. Bu ei syniadau ar waith am gryn amser ond yn 144OC fe weithredodd Eglwys Rufain yn ei erbyn a'i ddiarddel fel heretic.

Yn anffodus i Marcon roedd trwch y Cristnogion cynnar, boed yn Iddewon neu'n genedl-ddynion wedi derbyn yr Hen Destament fel eu llyfr crefyddol cyn bod y Testament Newydd wedi dod i fodolaeth. Yn hyn o beth roedd dysgeidiaeth Paul, er ei fod yn ddryslyd ar adegau, o gymorth wrth iddo dderbyn y gorffennol Iddewig gan ddweud ar yr un pryd nad parhad ohono oedd Cristnogaeth. Pan ddaeth y Testament Newydd i fodolaeth fe deimlwyd bod tensiwn yn codi wrth i'r Beibl Hebraeg gael ei ddisodli gan Destament Newydd y Cristnogion. Trwy alw un yn Newydd a'r llall yn Hen roedd yna awgrym bod y cyfamod newydd yn well o lawer na'r un blaenorol.

Mae'n ffaith ddiymwad fod y ddau Destament yn ffurfio'r Beibl a fu'n rhan o fywyd Cristnogion am yn agos i 2000 o flynyddoedd. Mae'n wir dweud hefyd na fyddai'r Beibl gennym heb yr awduron nac ychwaith heb lafur enfawr cenedlaethau o ysgrifenyddion proffesiynol a fu wrthi'n copïo'r cyfan ar bapyrws a memrwn. Roedd y rhain yn ymarfer gweithgarwch a ddechreuodd, mae'n debyg, ym Mesopotamia tua 4000CC wrth i fasnach ddatblygu i'r fath raddfa fel na allai pobl gofio manylion y prynu a'r gwerthu. Defnyddiwyd cerrig ar y dechrau ond gwelwyd yn fuan bod priddfeini yn well ar gyfer y gwaith. Mae archeolegwyr wedi darganfod y cofnodion hyn ac maent yn adnodd gwerthfawr i'r rhai sydd am fanylion bywyd pob dydd trigolion Mesopotamia. Oddeutu'r un cyfnod yn yr Aifft gwelwyd ei bod hi'n bosib defnyddio brwyn i ffurfio papur y gellid ysgrifennu arno. Gan fod hinsawdd yr Aifft yn sych roedd y papyrws yn para heb ddirywio. Cyn i femrwn ddod yn boblogaidd, papyrws oedd y deunydd a ddefnyddiwyd i wneud sgroliau'r Hen Destament. Sgrôl y proffwyd Eseia a roddwyd i Iesu ei darllen pan aeth i'r synagog yn Nasareth fel y dywedir yn Luc 4 adnodau 16-30 ac fe achosodd ei esboniad ymateb ffyrnig ymhlith y gwrandawyr.

Hebraeg Clasurol oedd iaith yr Hen Destament ond gan mai dim ond 22 o lythrennau oedd i'r wyddor a'r rheiny i gyd yn gytseiniaid, roedd rhaid i'r darllenwyr ddefnyddio llafariaid absennol i ynganu'r geiriau yn iawn. Gellid tybio y byddai hyn yn gwneud pethau'n anodd ond y dystiolaeth yw bod y llafariaid yn dod yn naturiol i siaradwyr Hebraeg. Efallai y gellir gweld y drefn ar waith wrth ystyried geiriau cyntaf Salm 23 heb y llafariaid: ***r rgldd.. f mgl.*** Gallwn felly edmygu medr Iesu yn trafod y sgrôl fawr tra ar yr un pryd yn dilyn y geiriau ac yn eu hynganu'n llawn.

Er bod llyfrau'r Beibl Hebraeg wedi'u hysgrifennu dros nifer o ganrifoedd, nid oedd y fersiwn gorffenedig ar gael cyn yr ail ganrif CC. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw bod y llyfr sydd gennym heddiw, i bob pwrpas, yn union yr un fath â'r gwreiddiol. Y llawysgrif gyflawn hynaf o'r Hen Destament sydd ar ffurf llyfr (yn hytrach na sgrôl) yw'r un a fu ar gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Rwsia ers 1863 sef *Codex Leningrad*. Credir i'r llyfr gael ei gopïo gyntaf yn 1008OC gan deulu Aaron ben Moses ben Asher o bentref Tiberias ar lan Llyn Galilea.

Er bod yr Hen Destament yn cynnwys syniadau annigonol am Dduw a bod ymddygiad nifer o'r cymeriadau yn gwbl warthus, mae'r hyn sy'n wael ynddo yn cael ei lwyr orbwyso gan yr hyn sy'n dda. Heb yr Hen ni fyddai'r Newydd yn gwneud synnwyr. Efallai nad yw'r Beibl wrth benelin pawb ond mae o yno yn yr isymwybod. Yn ddiarwybod mae ar dafod leferydd sawl un mewn dywediadau fel " '*Ai fi yw ceidwad fy mrawd?*'; '*Nid ar fara yn unig y bydd dyn fyw*'; '*Dihengais â chroen fy nannedd*'; '*Deng mlynedd a thrigain (oed yr addewid)*' ".

Efallai fod amryw o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* wedi ailddarganfod yn ystod y cyfnod hunanynysu rai o berlau'r Hen Destament, gan sylweddoli bod Marcon druan wedi bod ymhell o'i le.





# O'r Pen Yma

gan Angharad Tomos

Fel i filiynau o bobl eraill, un bennod erchyll o'r Cyfnod Clo i mi oedd lladd George Floyd gan heddwas ar Fai 25. Bu'n drobwynt yn yr ymwybyddiaeth o'r frwydr dros hawliau pobl ddu. Yma, ym Mhenygroes, cafwyd graffiti hiliol ar gartref teulu du, a pharodd hynny i bawb ohonom ystyried yn ddwys beth yw ein rhan ni yn y frwydr.

Un peth y gellir ei wneud yw dysgu am hiliaeth yn ein hysgolion. Gwelais ffilm fer o'r Saithdegau am ysgol yn yr Unol Daleithiau yn gwneud hyn mewn modd effeithiol. Cyhoeddodd yr athrawes un dydd fod pawb yn y dosbarth efo llygaid glas yn well na plant efo llygaid brown – roeddent yn fwy galluog, yn well, ac yn cael mwy o amser chwarae. Fel y gallwch ddyfalu, bu cryn gwffio ar yr iard amser cinio, a doedd o ddim yn ddiwrnod hapus. Drannoeth, dywedodd yr athrawes mai camgymeriad oedd hyn – plant efo llygaid brown oedd y rhai gorau, a dylid rhoi mwy o hawliau iddynt hwy, a dirmygu'r rhai efo llygaid glas. Ar ddiwedd y dydd, roedd trafodaeth fer, ac roedd y plant yn groch eu barn fod y gwahanu hyn yn annheg. Cytunodd yr athrawes, a dweud bod trin pobl yn wahanol ar gownt lliw eu llygaid neu liw eu croen yn gwbl anghywir. Fe dybiaf fod





y wers wedi aros efo'r plant.

Ches i rioed wers o'r fath. Ches i rioed wers am hiliaeth yn fy ysgol gynradd na'm hysgol uwchradd. Dysgais ddigon am Hitler a Churchill a'r Ail Ryfel Byd, ond yr un gair am hiliaeth. Ond mae yna un achlysur yn aros yn y cof – nid yn yr ysgol, ond yn yr Ysgol Sul. Ysgol Sul fechan oedd Horeb, Penygroes, efo llai na deg o blant. Ym 1968, wedi i Martin Luther King gael ei saethu, penderfynodd y Parch Gwilym Thomas, a Gwyneth ei wraig, lwyfannu cyflwyniad gan blant yr Ysgol Sul o'r enw 'Mae Gen i Freuddwyd'. Naw oed oeddwn ar y pryd, ond cofiaf yr argraff wnaeth y cyflwyniad hwnnw arnaf, yn enwedig yr araith enwog. Gwyddwn lle safwn ar fater hiliaeth.

Falle y cymer amser hir i newid cwricwlwm ysgolion, falle y cymer amser hir i dynnu cerfluniau i lawr. Ond yn ein hysgolion Sul, gallwn droi ati'n syth, waeth pa mor fychan yw'r dosbarth, i drafod hiliaeth ac i drafod lliw croen a lliw llygaid. Allwch chi byth fesur effaith hynny ar blentyn.

Wedi'r cwbl, ni wyddai'r Parch Gwilym Thomas y byddai rhywun ymhen hanner can mlynedd yn peintio swastica ar gartref teulu du rownd y gornel i Gapel Horeb Penygroes. Ond oherwydd iddo fod mor flaengar, roedd rhai o'r plant hynny yn dal i gofio safiad Martin Luther King, ac yn gwybod fod yn rhaid gwrthwynebu hiliaeth.

# Gweithredu dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

- Ebeneser, Eglwysbach £ 25.00
- Shiloh, Tregarth (Apêl Argyfwng) £157.00
- Ardal De Gwynedd £400.00
- Y ddiweddar Mrs K M Owen (Grawys) £ 10.00
- Mrs Sheila Ann Thomas £ 50.00
- Mrs E M Rees £ 50.00

Anfonwyd cyfanswm o £692.00 yn enw Synod Cymru. Diolchwn am bob cyfraniad.

Mae pandemig Covid-19 wedi gwneud bywyd yn anodd i bawb ac mae mwy a mwy o deuluoedd bregus yn methu fforddio pethau hanfodol fel bwyd a thanwydd. Mae Gweithredu dros Blant yn gweithio'n galed i helpu teuluoedd yn ystod yr argyfwng ac yn apelio'n arbennig am gymorth ychwanegol yn awr. Mae gwybodaeth am Gronfa Apêl Coronafeirws Gweithredu dros Blant i'w chael yn https://www.youtube.com/watch?v=Z4iQ2B-4MfU

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF

01978 756717
cwrteden@gmail.com

*Gair o Ddiolch*

Dymuna Margaret, Marc, Owain a Lucy, Llety'r Bugail, Gwersyllt ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth lem o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl. Diolch am y cardiau, yr e-byst a'r galwadau ffôn. Diolch yn fawr.



Llun: Gweithredu dros Blant

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Ardal Glannau Maelor

**ADDOLI ADRE YN YSTOD Y CLOI**
Ar ôl deall na fyddai modd cynnal oedfaon yn ein heglwysi, nôl ym mis Mawrth, penderfynwyd paratoi 'Taflen Addoli Adre' a'i danfon allan naill ai yn ddigidol neu drwy'r post. Mae'r daflen ar ffurf gwasanaeth – gan gynnwys emynau, darlleniadau, gweddïau ac Amser i Fyfyrio. Ar waelod y daflen hefyd ceir hysbys i'r oedfaon a'r rhaglenni crefyddol sydd ar y radio a'r teledu yr wythnos honno, boed yn Gymraeg neu yn Saesneg. Hefyd, defnyddiwyd y daflen i ddangos sut oedd modd dilyn y Gynhadledd Fethodistaidd ar-lein. Gan fod gwasanaethau wedi bod ar gael ar wefan yr Eglwys Fethodistaidd, buom yn defnyddio'r rhain yn sail i'n gwasanaethau a'u haddasu fel bo'r angen, gan ddefnyddio hefyd y gwasanaethau ar gyfer Suliau arbennig fel Sul MHA a Sul Gweithredu dros Blant. Mae taflen wedi bod ar gael bob Sul ers Sul y Mamau, ac ar gyfer Dydd Gwener y Groglith, a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gwyddom fod y gwasanaethau yn mynd allan ymhellach na dim ond yr Ardal wrth i bobl eu hanfon ymlaen; yn wir mae'n mynd yn wythnosol cyn belled â Sao Paulo, Brasil. Hoffwn ddiolch i'r aelodau hynny yn eglwysi Ardal Glannau Maelor sy'n dosbarthu'r daflen i'r rhai nad ydynt ar y we a chyfeillion na all fynd allan, gan gael gair ar yr un pryd er mwyn gweld sut maent.

**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

### Ardal Bathafarn

**DIOLCH**
Anodd iawn dod o hyd i eiriau i ddisgrifio'r misoedd rhyfedd y buom ni drwyddynt eleni! Drwy'r cyfan mae gennym destun diolch oherwydd rydym yn ddyledus iawn i'r holl weithwyr diflino sydd wedi cynnal y wlad yn yr amser argyfyngus hwn. Diolch i staff y Gwasanaeth Iechyd am weithio dan amodau anodd, gan achub llawer o fywydau. Nac anghofiwn chwaith am weithwyr yr archfarchnadoedd a siopau bwyd eraill, postmyn, gyrwyr lorïau a'r holl wirfoddolwyr sydd wedi bod wrthi mor ddygn yn gofalu am yr henoed a phobl na all adael eu cartrefi. Y grefydd ymarferol, yn wir! Sef dilyn yr hyn a ddysgodd yr Arglwydd Iesu i ni. Daw geiriau'r emyn i'r meddwl:–

"Ehanga 'mryd a gwared fi
rhag culni o bob rhyw,
rho imi weld pob mab i ti
yn frawd i mi, O Dduw."

Bu technoleg yn arf hynod ddefnyddiol, rhwng cynnal oedfaon ar wahanol gyfryngau a defnyddio Zoom i ddod â phobl at ei gilydd i sgwrsio neu bwyllgora. Parhawn i weddïo a gobeithio am ddyddiau gwell, gyda'r enfys yn arwydd i bawb o'n gobaith am haul ar fryn. Edrychwn ymlaen at gael cyfarfod unwaith eto.

**CYDYMDEIMLO**
Ein cydymdeimlad diffuant at Rhian a Rhodri a'r teulu o golli cyfnither a modryb annwyl iawn. Hefyd at Nia ac Elved, Glyndyfrdwy, o golli mam a mam yng nghyfraith annwyl sef Blodwen Morris, un a fu'n hynod o weithgar mewn bröydd eang. Cofiwn hefyd am deulu Mercy Jones, gweddw'r diweddar Barchedig Ifor Jones. Yn wreiddiol o Lanerfyl, Sir Drefaldwyn, bu Mercy, ynghyd â'i gŵr, yn ffyddlon iawn am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn yn ogystal â theulu'r ddiweddar Glenys Davies, a fu gyda'i theulu yn aelod ym Mathafarn rai blynyddoedd yn ôl. Bu Glenys yn athrawes yn Ysgol Stryd y Rhos, Rhuthun, a'i diweddar briod Hywel yn gweithio yn y Banc.

Fe gollodd capel Bathafarn hefyd aelod ffyddlon sef Eva Rogers Jones, Llanarmon yn Iâl, un oedd â ffydd gref a phersonoliaeth annwyl iawn. Bu Eva'n gweithio fel cyfrifydd yng Nghwmni Hill a Roberts yn Rhuthun. Treuliodd ei blynyddoedd olaf yng Nghartref Bryn Derwen, Llanelwy lle byddai'r Parchedig Martin Evans-Jones yn ymweld i fynd â'r Cymun iddi. Cefais innau, Elizabeth, hefyd y fraint o ymweld gyda'r Cymun ac yn aml byddai Eva yn awyddus i gyd-ganu emyn. Edrychai ymlaen at dderbyn y *Gwyliedydd* bob amser! Ar restr Gweithgareddau'r Cartref roedd 'Darlleniadau o'r Beibl gan Miss Jones'. Cynhaliwyd ei hangladd ym Mynwent Tabor dan ofal y Parchedig Marc Morgan a chafwyd gair hefyd gan rai o staff y Cartref a dystiodd i'w ffydd angerddol. Melys fydd yr atgof amdani. Ei cholli'n dristwch a'i chofio'n ddiddanwch.

Anfonwn ein cofion anwylaf at bawb sydd gartref a'r rhai sydd mewn Cartrefi yn ystod y cyfnod anodd hwn, gan edrych ymlaen at gael cwrdd eto yn fuan.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES


Siôn a Gwenno gydag Efan Dafydd

**DATHLU**
Mae bob amser yn bleser cael llongyfarch a chyhoeddi newyddion da, ond mae newyddion o'r fath yn llonni'r galon fwy fyth yn y cyfnod hwn. Dymunwn yn dda i Edwina, sy'n dathlu pen-blwydd arbennig yn 70 oed. Llongyfarchiadau i Siân a Dylan Parry, Gwyddelwern, ar fod yn nain a taid unwaith eto. Ganwyd mab, Jac Tudur, i Gwenno a Iolo. Llongyfarchiadau yn ogystal i Tudur, Tŷ Ucha'r Llyn a Tilly o Runcorn ar achlysur hapus eu dyweddïad. Bendith fo ar y teuluoedd hyn i gyd. Hyfrydwch oedd clywed am enedigaeth Efan Dafydd, mab bach i Siôn a Gwenno Hughes. Boed bendith arnoch. Mae Efan yn ŵyr i Rhian Hughes ac yn or-ŵyr i Gwyn Williams.



### Bethel, Rhiwbeina

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Mair Davies, y bu farw ei brawd.

**DIOLCH**
Rydym yn ddiolchgar iawn i'n gweinidog am gadw cysylltiad â'r aelodau trwy alwadau ffôn, cyfarchion, gweddïau a geiriau o gysur ar Facebook. Trwy gyfrwng y We bu modd inni ymuno o'n cartrefi ag aelodau Bethel a Salem Treganna mewn gwasanaethau o fyfyrdod a gweddïau o dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan. Credwn fod hyd at 300 wedi bod yn ymuno â ni. Mae'n dda cael mwynhau profiad ysbrydol ar wedd newydd – prawf y gall yr Efengyl gael ei lledaenu drwy ddulliau newydd, cyfoes.

**GOHEBYDD .** GWILYM E. ROBERTS

### Tabernacl, Llanfyllin

**DRWS AGORED**
Cawsom gychwyn eithaf prysur i'r flwyddyn, cyn dyddiau'r pandemig! Cyn y Cloi Mawr, cawsom sgwrs gan Ms Jessica Duche o'r Eglwys Wen, ynglŷn â Hosbis Hafren. Rhyfeddod oedd deall ei bod yn costio dros £23,000 **y diwrnod** i gynnal yr hosbis a sylweddoli rhan mor allweddol y mae'r siopau elusen yn ei chwarae wrth godi arian. Yn ystod y flwyddyn 2019 rhoddwyd cymorth i 2008 o deuluoedd. Ar hyn o bryd mae datblygiadau mawr ar y gweill i ehangu'r safle yn yr Amwythig. Bydd hyn yn cynnwys Caffi a lle addas i bobl fedru treulio diwrnod yno. Roedd wir yn agoriad llygad i glywed am yr holl waith da sy'n digwydd yn yr hosbis. Ychydig a wyddem y noson honno cymaint fyddai effaith Covid-19 ar yr elusen hon a phob elusen arall hefyd.

**PAENTIO**
Erbyn hyn mae festri'r Tabernacl wedi cael cot newydd o baent; edrychwn ymlaen at gael cyfle i weld yr ystafell ar ei newydd wedd!

**GAIR O DDIOLCH**
Rydym bob amser yn falch o weld Mr Tom Ellis, sydd yn dosbarthu'r *Gwyliedydd* ac ambell gylchgrawn arall wrth wneud ei ymarfer corff o gwmpas y dref. Diolch, Tom. Cofion at yr aelodau i gyd a "Cadwch yn saff".

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS


### Eglwys Unedig Colwyn

**CYMORTH YN YSTOD Y CLOI**
Mae'r misoedd a aeth heibio wedi bod yn rhai gwahanol iawn i bawb. Rydym ni fel aelodau'r Eglwys Unedig wedi gweld eisiau cwmni ein gilydd yn fawr. Mae'r galwadau ffôn wedi bod yn gymorth i bawb. Rydym yn hynod ddiolchgar i Trevor am ei Lythyr Bugeiliol wythnosol ac i Owen am 'Fyfyrdod y Sul' sydd bob wythnos yn ddiddorol iawn. Mae Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol bob bore Sul ar S4C hefyd wedi bod yn fendithiol iawn.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES



**ER COF ANNWYL**
Trist iawn gennym gofnodi marwolaeth Mrs Dora Jones yn 103 oed. Bu Dora a'i diweddar ŵr Mr R O Jones yn aelodau hynod o ffyddlon yng nghapeli'r ardal ar hyd eu hoes a gyda ni yn yr Eglwys Unedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd pawb oedd yn ei hadnabod yn cofio personoliaeth garedig a llawen Dora. Cynhaliwyd gwasanaeth ei hangladd yn Amlosgfa Bae Colwyn ar Orffennaf 1af.



# Bara'r Bywyd

### *gan y Parchedig Marty Presdee*



Pan oeddwn yn fyfyriwr diwinyddol bûm yn India fel rhan o drefniant cyfnewid rhwng fy ngholeg i yn Birmingham a choleg yn Madurai, Tamil Nadu. Fe roddodd y daith beth dealltwriaeth i mi o fywyd yn India nad anghofia i byth. Tan hynny, roeddwn wedi cymryd bwyd yn ganiataol. Roedden ni wastad wedi cael digon i'w fwyta, a chael dewis beth i'w gael, o fewn rheswm. Dydw i ddim yn mwynhau bwyd â sbeis ynddo fe, ac felly doedd llawer o'r bwyd yn India ddim at fy nant, er bod rhai o'r bwydydd yn sicr wrth fy modd. Ond yn bwysicach na hynny, fe ddysgais fod bwyd yn rhan bwysig o'r diwylliant yn India.

Un diwrnod cefais fy ngwahodd i gael pryd o fwyd yng nghartref dau fyfyriwr priod yn y coleg yn Madurai. Roedden nhw'n byw yn syml iawn gan nad oedd llawer o arian yn sbâr ar gyfer moethau. Pan gyrhaeddais, cefais fango ffres, ac roedd hi'n amlwg bod fy lletywraig wedi mynd i drafferth mawr i roi bwyd arbennig i mi: cawl clir, cig gyda reis, a phwdin llaeth. Roedd paratoi bwyd yn arwydd o'u croeso.

Yn nes ymlaen, fe ddangoswyd i mi y slymiau, lle mae'r coleg yn gweithio ymysg y bobl dlotaf. Roedd y bobl yn gweithio'n galed mewn swyddi isel, dim ond er mwyn ennill digon i allu bwyta o'r naill ddiwrnod i'r llall. Doedd y plant, yn enwedig y merched, ddim yn cael digon o faeth, ac roedd eu hiechyd yn dioddef. Roeddwn i'n gweld bwyd â llygaid newydd, ar ôl fy amser yn India: nid yn unig yn arwydd o ofal a chroeso i ymwelydd ond yn ganlyniad diwrnod o waith mewn ffordd na all llawer ohonom yn ein cymdeithas ni ei amgyffred.

## Manna o'r nefoedd

Ydych chi'n cofio'r hanes yn llyfr Exodus, pennod 16, am yr Israeliaid yn cwyno am yr amgylchiadau yn y diffeithwch? Roedd Duw wedi rhoi dŵr glân iddynt, ond roedd arnynt eisiau bwyd. Roeddent yn dyheu am fod yn ôl yn yr Aifft, lle roedd digon o fwyd, o leiaf! Dywed Duw wrth Moses y bydd yn gofalu am eu hanghenion. Gyda'r nos, dyma haid fawr o adar yn dod i lawr, a'r bobl yn cael cig i'w fwyta. Bore drannoeth fe gawson nhw hyd i rywbeth rhyfedd ar y llawr, a fyddai'n fwyd iddynt.

Fe ddangosodd Duw ei drugaredd tuag at ei ddewis bobl a thrwy hyn byddent yn sylweddoli mai ef oedd eu Duw. Gofalodd am eu hanghenion beunyddiol a'u harwain ar hyd y llwybrau iawn. Roedd yn rhaid iddynt aros mewn cysylltiad ag ef, a dysgu dilyn ei ffyrdd. Clywodd hwy'n cwyno ac fe'i galwodd yn ôl, i'w safle cywir, fel ei bobl ef.

## Cwyno am Dduw

Sylwch ar natur cwynion yr Israeliaid, sef cwyno am Dduw. Pan fyddwn ninnau'n cwyno a grwgnach, ai cwynion yn erbyn Duw sydd yma, yn erbyn y ffordd y mae Duw wedi trefnu'r byd a bywyd dynol? Ond oni ddylem ni weld ein hanawsterau mewn bywyd, yn arbennig ar hyn o bryd, fel ffordd Duw o'n cadw mewn cysylltiad agos ag ef?

Daioni Duw sydd yn ein cynnal a'n harwain bob amser ar ein teithiau drwy fywyd. Mae'n rhoi inni diroedd ffrwythlon, fel y cawn oll ddigon o fwyd ac fel y gallwn rannu ein cyfoeth materol ac ysbrydol â'r rhai sydd mewn angen.



## Bara'r Bywyd

Yn y chweched bennod o Efengyl Ioan, mae Iesu'n bwydo'r dorf gyda thorthau a physgod ac yn atgoffa'r bobl am y manna yn yr anialwch. Yna mae'n hawlio mai ef yw 'Bara'r Bywyd'. Byddai'r maeth yn y manna yn darfod, meddai, ond ni fyddai'r rhai a ddeuai ato ef yn newynu na sychedu fyth. Er iddo fwydo tyrfa fawr, nid oedd yr hyn a ddywedai yn dderbyniol gan bobl – am ei fod yn hawlio bod yn Fab i Dduw. Wedi'r digwyddiad yma, fe drodd llawer o'i ddilynwyr yn ei erbyn a gwrthod ei ddysgeidiaeth.

Canolbwynt dysgeidiaeth Iesu oedd ei addewid, na fydd y rhai ddaw ato ef yn newynu byth, na sychedu, ac na throir hwy ymaith. Os meddyliwn am yr agwedd wahanol sydd gan bobl mewn gwledydd fel India tuag at fwyd, fe werthfawrogwn yn fwy mor ardderchog oedd cynnig Iesu. Fe ddefnyddiodd y darlun o'r dyfra'n cael eu bwydo, i ddangos y byddai'n rhoi yn ysbrydol i'w ddilynwyr, fel na fyddai angen arnyn nhw byth wedyn. Fe fyddai'n gofalu am eu hanghenion ysbrydol dyfnaf, fel y caent fywyd helaethach yn ôl ei addewid.

Mae'r un addewid yn aros heddiw. Mae ein cymdeithas ni yn gosod cysgodion eraill yn ein bywyd – llai materol na newyn a syched, hyd yn oed yn yr amserau anarferol presennol. Rydym yn poeni am gael ein gwrthod, am unigrwydd, am fod ar goll mewn cymdeithas sy'n malio dim am yr unigolyn. Gallwn deimlo'n anniogel, yn agored i niwed. Mae Iesu'n dweud ei fod yn diwallu ein hangen dyfnaf, drwy ein bywyd ac i dragwyddoldeb. Mae'n addo i ni ei bresenoldeb drwy holl brofiadau gwahanol bywyd. Mae'n ein galw hefyd i rannu'r wledd ysbrydol fel y gallwn gynnig ei wahoddiad o achubiaeth a chariad i'r byd cyfan.

### LLONGYFARCHIADAU ARBENNIG

Hyfrydwch o'r mwyaf yw cael llongyfarch Mrs Nansi Hughes, mam y diweddar Barchedig Raymond Hughes, mam yng nghyfraith Susan a nain Karen, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ym mis Gorffennaf eleni. Pob dymuniad da a chofion cynhesaf oddi wrth eich holl ffrindiau yn Synod Cymru.






# O'R LLAN

### *gan y Canon Idris Thomas*

## Ein taro â haint

Mae'r geiriau uchod o Lyfr Exodus yn dweud y cyfan am y sefyllfa bresennol argyfyngus a thrist yn hanes ein byd. Ein taro â haint dinistriol gawsom nes troi ein bywydau ben i waered a chipio miloedd ar filoedd o anwyliaid oddi ar eu teuluoedd. Mae'r hyn a ddywed y Geiriadur Beiblaidd am y gair "haint" yn ddirdynnol: ystyr y geiriau gwreiddiol a gyfieithir yn haint yw 'marw' neu 'torri ymaith'.

Os yw hyn yn ein llorio a gwneud inni anobeithio, rhaid diolch ar yr un pryd fod llawer iawn o heintiau, peryglus a difäol i ddynoliaeth ar hyd yr oesau, bellach wedi eu concro gan feddygaeth. Drwy ymchwil ac ymgysegriad, llwyddwyd i iacháu heintiau difrifol a fu gynt yn farwol. Ein gweddi daer yw y caiff haint Covid 19 ei drechu pan wnaiff y gwyddonwyr ddarganfod brechlyn a'n cri yw geiriau Elfed "llaw a deall dyn perffeithia, er iachâd..." Daw englyn Elwyn Evans, "Beth a ddaw?" hefyd i'r cof:-

Heddiw yn wir ni wyddom –<br>yr adeg<br>Y daw pryder arnom;<br>Ceisio gobeithio tra bôm<br>Yw hanes pawb ohonom".



## Byw drwy gyfnod y feirws

Mae fy ngwraig Ann a minnau, fel cynifer o bobl eraill, wrthi'n hunanynysu – neu feudwyo, fel y dywedodd cymydog. Er hynny nid ydym ar ein pennau ein hunain oherwydd caredigrwydd arbennig teulu a chymdogion. Ysgrifennaf y golofn hon ar ôl tair wythnos ar ddeg o gadw yn y tŷ a diolchaf am yr ardd a'r cae cyfagos sy'n berchen i Malcolm drws nesa, heb anghofio'r ddau gwt lle rwyf wrth fy modd yn potsian am oriau. Mae cymuned Deiniolen, fel pob cymuned arall gwerth chweil, yn gofalu am ei thrigolion. Diolchaf i'm brawd Meirion a'm chwaer Gwyneth yn y pentref am bopeth a'r un modd i Osian y mab ieuengaf a'i briod Llio yn Llangefni.

Y peth cyntaf a'm trawodd pan ddechreuodd y Cyfnod Clo oedd y tawelwch – roedd yn llethol ac yn iasol. Un diwrnod euthum i fyny yn y car i gymuned Dinorwig gerllaw lle cefais fy magu. Yn naturiol nid oedd neb o gwmpas ac roedd byd natur hyd yn oed fel petai wedi ei barlysu gan rywbeth hefyd. Daeth rhyw deimlad rhyfedd, oeraidd a brawychus drosof. Roeddwn fel dieithryn. Ai hon oedd y fro anwylaf a gofiwn gynt? Ysgytiol a rhyfedd oedd y profiad hyd ddagrau.

## Codi calon

Ar gefndir y cwmwl du a brofwn y mae'r enfys harddaf. Ganwyd wyres inni sef Nêf Esmi Tomos yn yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd ar Fai 22ain i gadw cwmni i'w chwaer Eila a'i chefnder Gruffudd Siôn yn Llangefni. O fewn y teulu yn ogystal cafwyd camp fawr ewythr fy ngwraig sef Rhythwyn Evans o fferm Tan y Graig ym mhentref Silian ger Llanbedr Pont Steffan. Penderfynodd Rhythwyn efelychu campau'r enwog Gapten Tom Moore o Swydd Efrog. Dathlodd Rhythwyn ei ben-blwydd yn 91 oed ar Ebrill 18fed a cherddodd o gwmpas ei gartref 91 o weithiau i godi arian i'r rhai sydd yn trin pobl â chronafeirws, gan ddangos ei werthfawrogiad o'r gwaith mae'r gwasanaeth iechyd yn ei wneud o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Roedd ei wraig Gwyneth a'r teulu yn falch iawn fod Rhythwyn yn ddigon iach i fedru gwneud hyn, i helpu achos mor deilwng. Y swm anhygoel a godwyd oedd £52,000. Rhoes Rhythwyn a Gwyneth oes o wasanaeth i Eglwys a Chymuned Silian ac i'r byd amaethyddol. Yn wir maent yn dal wrthi a braint yw i mi gael eu hadnabod ers hanner canrif. Meddai eu cyfaill Twynog Davies:

Mae'n ymdrech i'w chlodfori,<br>Ffrind da, rhaid oedd cefnogi.<br>Wrth gerdded profwyd haelioni;<br>Samariad yw Rhythwyn i ni.



# Capel Ni yn Eglwys Iesu

## Ebeneser, Trefor, Môn

**COFIO GWYNETH**
Er na fu gwasanaethau yn y capel ers misoedd bellach, wrth gwrs, cawsom bregethau ar y We gan ein gweinidog, y Parchedig Richard Gillion ac rydym yn ddiolchgar iawn hefyd am y gwasanaethau a gafwyd o lawer man ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar S4C. Ond edrychwn ymlaen at gael ailgyfarfod yn y capel pan fydd hynny yn ddiogel. Fodd bynnag bydd chwithdod mawr gan i ni golli aelod ffyddlon iawn yn ystod y cyfnod hwn sef Mrs Gwyneth Thomas.

Bu Gwyneth yn organydd yn Ebeneser am dros 70 mlynedd, ers ei bod yn hogan ysgol hyd nes iddi gael ei tharo'n wael fis Chwefror eleni. Bu'n teithio am flynyddoedd o Borthmadog bob penwythnos er mwyn dod yma i gyfeilio. Hi hefyd oedd ysgrifennydd y Plan – gwaith a wnaeth yn gydwybodol iawn, yn ogystal â gofalu am baratoi bwrdd y Cymun. Doedd dim yn ormod o drafferth iddi lle'r oedd capel Trefor yn y cwestiwn. Bydd bwlch enfawr ar ei hôl. Oherwydd y cyfyngiadau ni fu modd cael gwasanaeth yn y capel ond cafwyd gwasanaeth ar lan y bedd ym Mynwent Sant Cristiolus, Llangristiolus dan ofal y Parchedig Richard Gillion. Cydymdeimlwn yn fawr â Gareth ac Iona a'r teulu i gyd.

**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

## St Paul, Aberystwyth

**SIANEL YOUTUBE (https://www.youtube.com/channel/UCUzBV9PGoDOTztJ47aIPvPA/)**

Cynhaliwyd ein gwasanaeth diwethaf yn ein capel fore Sul 15 Mawrth ac wrth gwrs ni chaniatawyd inni ddefnyddio ein hadeilad wedyn oherwydd y pandemig. Rydym yn ffodus iawn yng Nghanolfan Sant Paul bod gennym nifer dda o aelodau o'r ddwy gynulleidfa sy'n gyfarwydd â'r dechnoleg gyfoes ac sy'n fodlon rhoi o'u gwybodaeth a'u hamser er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn parhau. Bob bore Sul o 22 Mawrth ymlaen maent wedi darparu dau wasanaeth derbyniol iawn ar YouTube. Arweiniwyd pob gwasanaeth Cymraeg naill ai gan un o'n gweinidogion, sef y Parchedigion Marty Presdee a Roger Hides, neu gan un o'r pregethwyr cynorthwyol. Yr unig bregethwr cynorthwyol yn Ardal Ceredigion ar hyn o bryd yw Bet Holmes ond cawsom gymorth hefyd gan Ann Price a Dionne Sherwood, pregethwyr o'r gynulleidfa Saesneg sydd wedi dysgu'r Gymraeg. Darllenwyd o'r Beibl gan Menna Evans o'r gynulleidfa Gymraeg a hefyd gan aelodau o'r gynulleidfa Saesneg. Hyfryd iawn oedd clywed Ruth Flatman, Liz Nicol a David Lowe yn darllen yn y Gymraeg. Darparwyd hefyd gopi printiedig o'r gwasanaeth i'r aelodau hynny sydd heb fynediad i'r We.
Bob wythnos trwy gydol y cyfnod anodd hwn mae'r Parchedig Peter Barber, Uwchrif sy'n addoli yn y gynulleidfa Saesneg, wedi paratoi taflen o weddïau dyddiol. Dosbarthwyd copïau yn Gymraeg ac yn Saesneg, trwy e-bost neu ar ffurf brintiedig i'r holl aelodau.

**NEWYDDION DA**
Wedi triniaeth faith a chymhleth ar gyfer cyflwr sarcoma, ardderchog yw deall fod Iestyn Phillips, ŵyr Ray Foster Evans, yn awr yn well. Pob dymuniad da i ti, Iestyn. Mae stori'r cyfnod hwn yn hanes y teulu i'w gweld ar wefan Cymru Fyw ac mae yn wirioneddol ysbrydoledig.

**DIOLCH**
Bydd y Parchedig Roger Hides yn ein gadael yn ystod yr haf. Dymunwn yn dda iawn iddo ef a'i wraig, y Diacon Sara Windsor Hides, yn eu bywyd dros y ffin yn Knighton, gan ddiolch o galon iddynt am eu cyfraniad arbennig i fywyd Sant Paul a'r capeli Methodistaidd eraill yng Ngheredigion.

**ER COF ANNWYL**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth John Thomas ar 1 Gorffennaf. Aelod o'r gynulleidfa Saesneg oedd John ond byddai'n dod atom yn aml gyda'i wraig Pam cyn iddi ddioddef strôc greulon. Roedd John yn gyfaill da i lawer yng Nghanolfan Sant Paul ac yn y gymuned leol.

**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN



## Saron, Bethel, Arfon

**DYMUNIADAU GORAU**

Mae'n ddrwg gennym fel Eglwys glywed am waeledd Olwen, priod Mr Dafydd Williams, Stad Eryri. Da yw deall ei bod bellach wedi cael mynd adref ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi hi. Pob dymuniad da hefyd i bawb arall o'n haelodau ac i'r plant bach ffyddlon nad ydym wedi gallu eu gweld ers wythnosau lawer bellach. Gobeithio y daw haul ar fryn eto yn fuan ac y cawn ni fel aelodau a phlant gyfarfod eto yn Saron ar bnawn Sul am 1.30 yn ôl ein harfer. Croeso cynnes i bawb.

**GOHEBYDD .** RJ



## Shiloh, Tregarth

**DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn falch iawn fod Noreen Jones wedi cael dod adref o'r Ysbyty ac yn gwella. Dymuniadau gorau i chi am wellhad buan, Noreen. Ein cofion anwylaf hefyd at Beti Morris ac at Islwyn Evans, gan ddymuno llwyr iachâd i chi ac i bawb o'n cyfeillion nad ydynt wedi bod yn dda.

**GENEDIGAETH**
Mae un o'n haelodau wedi dod yn nain am yr eildro yn ddiweddar, sef Anwen Griffiths, Cysgod y Parc, Sling. Ganed merch fach i Hywyn a Rachel Griffiths, Dwygyfylchi, Penmaenmawr a'i henw ydi Rhianwen Mai. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd fel teulu.

**PROFEDIGAETH**
Cawsom golled fawr fel cynulleidfa ym marwolaeth Denis Vaughan Griffith, y buom yn ffodus i gael ei gwmni am lawer blwyddyn. Bu Denis yn aelod ffyddlon yng nghapel Gorffwysfa, Sling ac yna yn Shiloh. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i blant sef Falyri, Marilyn, Edwina, Geraint a Delyth a'r teulu oll.

Yr un yw ein cydymdeimlad â sawl teulu arall sydd â chysylltiad â Shiloh ac a fu mewn profedigaeth. Cofiwn am Brenda Hughes, y bu farw ei brawd Gareth yn frawychus o sydyn ac yntau yn 60 oed. Pob cydymdeimlad yn ogystal â Bethan Gwyn, Elin, Angharad, Mari a Rhiannon, ym marwolaeth mam Bethan. Gyda thristwch hefyd y clywsom am farwolaeth Islwyn Jones, Dob. Bu gan deulu Islwyn gysylltiad agos iawn â chapel Shiloh am flynyddoedd lawer, a bu Islwyn yntau yn gyfaill ardderchog i lawer. Byddai bob amser yn barod iawn ei gymwynas yn gwneud gwaith trydanol yn y capel. Anfonwn ein cydymdeimlad at Valerie, ei briod, y meibion Gethin a Leslie, a'r teulu.



**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

# COFFÂD

### I gofio'n dyner am Eva Rogers-Jones – gair gan y Parchedig D. Marc Morgan

Ar Fehefin 6ed eleni, bu farw Miss Eva Rogers-Jones, a hithau yn 80 oed. Treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn y cartref lle magwyd hi sef Cwm, Llanarmon yn Iâl. Hi oedd unig blentyn Mr a Mrs John Hugh Jones. Cyfrifydd oedd Eva wrth ei galwedigaeth a bu'n gweithio yn Rhuthun. Wedi i gapel Tabor, Llanarmon yn Iâl gau ymaelododd yng nghapel Hirwaen, ger Rhuthun ac yn ddiweddarach yng nghapel Bathafarn lle bu'n aelod ffyddlon gan gadw cysylltiad clòs hyd y diwedd er iddi orfod symud i Gartref yn Llanelwy. Bu hefyd yn gefnogol iawn i sawl capel arall yn yr ardal gan gynnwys Salem, Eryrys – dyna sut des i i'w hadnabod – a Chapel Rhiw Iâl. Fel ei thad o'i blaen, roedd Miss Jones yn organydd ac fe gynorthwyodd sawl capel yn y modd hwnnw. Person tawel ydoedd, gwraig yr oedd ei ffydd a'i Beibl yn golygu llawer iddi. Yn y cartref yn Llanelwy fe barhaodd i astudio'i Beibl a hynny gydag un o'r staff. Talodd yr aelod hynny deyrnged fer iddi yn ei hangladd ar lan y bedd ym Mynwent Capel Tabor, Llanarmon yn Iâl ar 18fed Mehefin 2020. Er nad oedd modd i neb o'r teulu fod yn bresennol yn yr angladd, daeth nifer o gyfeillion, cymdogion ac aelodau staff y cartref ynghyd.

### Cofio'n annwyl am Mercy

Ar 12 Ebrill eleni, bu farw Mercy Jones, priod y diweddar Barchedig Ifor Jones. Cafodd Mercy ei magu yn Llanerfyl, Sir Drefaldwyn, yn ferch i John a Lydia Blainey – bu John yn brif syrfëwr Sir Drefaldwyn. Hi oedd yr hynaf o dri o blant, yn chwaer i'r diweddar Barchedig Erfyl a Tecwyn Blainey. Cyn marwolaeth ei phriod yn 2005, bu Mercy ac Ifor yn byw am nifer o flynyddoedd yn Llandrillo yn Rhos. Symudodd Mercy i Ruddlan wedyn, yna treulio ei dwy flynedd olaf yng Nghartref Plas Gwyn yn Llanychan ger Rhuthun. Ar hyd y blynyddoedd bu'n weithgar yn y capeli lle bu Ifor yn weinidog ac roedd ganddi ddiddordeb mawr yn 'y Pethe' – yr Eisteddfod Genedlaethol yn enwedig. Roedd hi'n hoff iawn o gerddoriaeth ac yn ddarllenwraig frwd. Dymuna ei nai Gareth a Delyth ei wraig ddiolch o galon i'r ffrindiau fu'n ffyddlon i Mercy a hefyd i staff cartref Plas Gwyn am y gofal a gafodd yno.

# 70 mlynedd yn y Weinidogaeth

### *gan Robin Jones*

Yn rhaglen Cynhadledd yr Eglwys Fethodistaidd eleni mae cyfarchion i'r Gweinidogion hynny sydd wedi gwasanaethu am 70 mlynedd. Yn eu plith mae enw un o'n 'hogia ni' sef yr annwyl Barchedig Cledwyn Parry, Dinbych. Mae Mr Parry yn 96 oed erbyn hyn ac yn gaeth i'r tŷ oherwydd anhwylder. Yn enedigol o Gaernarfon, roedd yn un o naw o blant; buont fel teulu yn aelodau ffyddlon yng nghapel Ebeneser dros gyfnod maith. Yng nghapel bach Ty'n Lôn ger Caernarfon y pregethodd Mr Parry am y tro cyntaf, yn hogyn ifanc dwy ar bymtheg oed. Chwith meddwl fod y ddau gapel hynny, fel sawl capel arall drwy Gymru gyfan, bellach wedi cau eu drysau am byth.

A minnau'n adnabod Mr Parry a'r teulu ers blynyddoedd lawer, pleser mawr oedd cael codi'r ffôn i'w longyfarch ar fy rhan i a'r teulu ac ar ran y *Gwyliedydd* wrth gwrs. Buaswn wedi medru sgwrsio ag ef drwy'r dydd gan mor ddiddorol a llawn hiwmor ydyw, yn llawn argyhoeddiad o fawredd yr Efengyl. Roedd yr atgofion yn byrlymu: er enghraifft, am yr adeg y bu iddo bregethu cyn belled i ffwrdd â Cholombo, Sri Lanka o bob man pan oedd yn yr Awyrlu ers talwm.

Ar ôl gwasanaethu'n ffyddlon am 70 o flynyddoedd tybed nad oedd yn teimlo rhyw elfen o siom o weld cyflwr truenus crefydd yng Nghymru heddiw? Yr ateb pendant a gefais oedd: "Na, dim siom o gwbl. Mae'r Efengyl yn llawer mwy na'r capeli a'r eglwysi ac mae mwy o Gristnogion yn y byd heddiw nag sydd wedi bod erioed."

Neges y Parchedig Cledwyn Parry i bob un ohonom ni sy'n aelodau o Eglwys Iesu Grist, lle bynnag yr ydym ni, yw DALIWCH ATI gan beidio byth â digalonni. Llawer o ddiolch i chi Mr Parry am eich holl lafur dros y blynyddoedd, a llongyfarchiadau mawr i chi ar ein rhan ni oll.




**Y Naw: Cledwyn a'i frodyr a'i chwiorydd**

**Englyn gan y diweddar John Glyn Jones, i'r Parchedig Cledwyn Parry pan oedd yn dathlu 40 mlynedd o wasanaeth fel gweinidog yn Nyffryn Clwyd**

***Parod fu Cledwyn Parry – gyda'i wên,***
***Gyda'i air a'i weddi***
***I roi'n hael i'n dyffryn ni –***
***Rhoi ei hun yn llwyr inni.***




**Cymanfa yn Siloam, Bethesda, tua 1972**



**Y Parchg Cledwyn Parry gyda Twm, ei or-ŵyr**



# GAIR BACH

### *gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



Dim ond 'dieithryn' a wahoddwyd i gyfrannu'r golofn hon i'r *Gwyliedydd* wyf fi. Ac felly, Wesleaid ffyddlon, maddeuwch hyfdra'r cwestiwn canlynol. Oeddech chi'n sylweddoli bod teitl y cylchgrawn hwn yn 'llai Beiblaidd' nag y bu?

Mae *Mynegeir* Peter Williams yn rhestru dwsin o adnodau ym Meibl William Morgan sy'n cynnwys y gair 'gwiliedydd'. (Bu bron i mi fethu â'i weld yn y *Mynegeir* am mai'r hen sillafiad a geir ynddo.) Yn *Y Beibl Cymraeg Newydd* a gyhoeddwyd yn 1988, mewn pedair adnod yn unig y ceir y gair gan ei fod wedi ei newid i 'gwyliwr' yng ngweddill yr adnodau a restrir gan Peter Williams. Ac erbyn cyhoeddi'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig* yn 2004, roedd 'gwyliwr' wedi disodli 'gwyliedydd' mewn tair o'r adnodau hynny eto.

Felly, mewn un adnod yn unig y ceir y gair 'gwyliedydd' erbyn hyn, ond ei fod yn yr adnod honno ddwywaith. 'Ond pe byddai'r gwyliedydd yn gweld y cleddyf yn dod ac yn peidio â chanu'r utgorn i rybuddio'r bobl, a'r cleddyf yn dod ac yn lladd un ohonynt, yna, er i hwnnw gael ei ladd am ei ddrygioni, byddwn yn dal y gwyliedydd yn gyfrifol am ei waed' (Eseciel 33:6).

Gosodwyd ar y proffwyd Eseciel y cyfrifoldeb o fod yn wyliedydd sy'n gwylio dros ei bobl ac yn seinio utgorn i'w rhybuddio rhag unrhyw berygl. Os byddai cleddyf yn bygwth y bobl, byddai'r gwyliedydd wedi gwneud ei waith trwy seinio'r utgorn; ond pe na fyddai'n gwneud hynny, byddai'n gyfrifol am waed ei bobl. Tybed a fethodd ambell wladweinydd â seinio'r utgorn eleni am nad ystyrion nhw fygythiad Covid-19 yn ddigon buan? Braint yr Eglwys – heddiw fel erioed – yw gwahodd pobl at Grist. O reidrwydd, gall hynny olygu rhybuddio rhag y perygl o wrthod y Gwaredwr. Duw helpo'r *Gwyliedydd* a ninnau i wneud ein rhan.

## Sul yr Hinsawdd

Bu pobl yn barod iawn i helpu ei gilydd yn ystod cyfnod anodd y pandemig eleni. Ein gobaith yw y gwelwn ni oll ddyddiau gwell pan aiff yr aflwydd heibio. Ond mae'n rhaid inni wynebu'r ffaith, gwaetha'r modd, fod newid hinsawdd yn waeth bygythiad hyd yn oed na'r pandemig. Mae'r amser yn brin iawn os yw'r ddynoliaeth am rwystro anhrefn, cyni a phobl yn marw ar raddfa enfawr, heb sôn am golli amrywiol greaduriaid.


Fel Cristnogion, pa ran allwn ni ei chwarae? I ddechrau, mae'n hollbwysig ein bod yn datgan ein cred mai Duw biau'r Ddaear a'i fod yn caru ei greadigaeth gyfan, a ninnau'n gwbl ddibynnol ar Dduw. Os ydym yn credu hynny, ni allwn anwybyddu beth sydd yn awr yn digwydd.

Mae Cytûn – yr eglwysi ynghyd yng Nghymru – wedi lansio menter o'r enw *Sul yr Hinsawdd* i helpu'r eglwysi i weithredu gyda'i gilydd. Mae blwyddyn dyngedfennol o'n blaenau gan fod angen rhoi pwysau ar lywodraethau'r gwledydd cyn cyfarfod hinsawdd byd-eang COP26 ym mis Tachwedd 2021. Gofynnir inni gymryd rhan ym mha bynnag ffordd y gallwn, drwy leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr, trefnu oedfa yn canolbwyntio ar yr hinsawdd (Sul yr hinsawdd, nad yw'n gorfod bod yn unrhyw Sul penodol) neu alw am weithredu llawer cadarnach gan lywodraethau. Boed inni edifarhau am ein trachwant a gofyn i Dduw ein gwneud yn offerynnau ei gyfiawnder.

Mae'n amser gweithredu, fel y gŵyr yr ifanc. Gall pobl o bob oed ddangos eu cefnogaeth. Un peth y gallwn ei wneud yw cynnig cymorth bugeiliol i rai ifanc sydd yn dioddef pryder a galar ynghylch yr hinsawdd.



## cartŵn





# Hei, Gwranda 'Nei Di!

(Fel y dywedodd Mr Picton yn C'mon Midffild)

*gan Edward M. Jones*

Un o'r cyfnodau mwyaf gwerthfawr i mi ei dreulio erioed oedd yr un ar ben arall ffôn, **yn gwrando** – yn gwrando'n astud ar lais unigolion, dieithriaid, a'r rhai hynny bron bob amser mewn cyfnod o iselder ac anobaith.

I ddechrau yn y dechrau, ychydig a feddyliais i erioed y buaswn i'n cael fy hun – bryd hynny yn fy nghanol-oed ifanc – yn cael fy hyfforddi sut i **wrando**! Ac wnes i erioed edifarhau mod i wedi rhoi fy hun mewn sefyllfa o'r fath. Roedd cangen newydd o fudiad y Samariaid yn cael ei sefydlu yng ngogledd-orllewin Cymru ar y pryd, ac unigolion oedd â phrofiad blaenorol o'r gwaith yn cynnig hyfforddi'r rhai oedd am ymuno â'r gwasanaeth.

Yn bersonol, rwyf wrth fy modd yng nghwmni pobl – o ddewis mewn cwmni bychan, dim rhagor na rhyw wyth, dwedwch. Yno, fel rheol mi fydd cyfle, nid yn unig i gyfrannu a siarad ond – yn aml yn bwysicach i mi – i gyfranogi ac elwa trwy wrando ar sylwadau aelodau eraill y cwmni, boed hynny yn ddifrifol neu yn ysgafn. Rwy'n rhyw deimlo bod yr awydd yma i **wrando** wedi ei blannu ynof i ers pan oeddwn i'n ifanc iawn, am imi gael cyfle cyson i fod yng nghwmni pobl hŷn, yn mwynhau eu sgwrsio ac yn clywed eu hanesion a'u profiadau. O ganlyniad doedd y gallu i wrando a mwynhau, boed mewn dosbarth yn yr ysgol ddyddiol, mewn ysgol Sul ac oedfa neu mewn cynulleidfa fwy yn fawr o broblem i mi erioed.

Ond, eto, gwrando'n astud ar lais unigolyn mewn angen a heb neb ond y chi i droi ato? Dyma gyfrifoldeb, her ac yn wir, braint arbennig. Fel aelod o dîm y Samariaid mae'n rhaid dysgu sut i wrando, er mwyn gallu ymateb yn dawel, ond yn gynhaliol, ymateb yn onest a gostyngedig heb byth fod yn rhy awyddus i wrando ar sŵn eich llais eich hun! Cael yr unigolyn i deimlo'n ddiogel a dod i ymddiried ynoch chi, ar ben arall y ffôn – neu, erbyn hyn, ar gyfrifiadur – ymddiried ynoch chi bron fel ffrind, dyna'r nod.

Ac wrth inni broffesu ein bod yn addoli Duw yn Iesu Grist, oni chawn ein hannog i weddïo ar Dduw ac yna i **wrando** ar ei lais yn ymyrryd yn ein bywydau?

Mae'n bosibl eich bod chi, fel finne wedi sylwi sut mae person sy'n dechrau colli ei glyw ac yn graddol fynd yn fyddar yn aml yn ei chael hi'n anodd i **wrando** ac, o ganlyniad, i ddeall a chymryd rhan mewn sgwrs a thrafodaeth. Y perygl yw, yn enwedig os nad ydym ni'n fodlon cydnabod bod y clyw yn dechrau dirywio, ein bod ni'n codi llais a siarad "drwy" sgwrs pobl eraill. Mae'r canlyniad yn amlwg: y **gwrando** yn dirywio a'r ddealltwriaeth rhwng dwy ochr yn gwanhau.

Ar y llaw arall diolch, ar ôl i ni fod drwy gyfnod anodd y pandemig dieflig yn ein bywydau, ein bod ni wedi cael cyfle newydd i glywed lleisiau byd natur o'n cwmpas yn llawer mwy eglur. Bu hynny yn fodd i mi yn bendant, ac i chithau, gobeithio ddiolch o'r newydd am y gallu i **wrando**. Gadewch i ni geisio gwneud hynny yn amlach, ac yn fwy effeithiol mewn perthynas â chyd-ddyn i'r dyfodol.



# Wrth fynd heibio

*gan William H. Owen*

Os buo hi'n adeg na welwyd ei thebyg yng nghof undyn byw, un peth sy'n sicr – welwyd erioed y fath ddewis i ymuno â gwahanol wasanaethau crefyddol ag a gafwyd yn ddiweddar. A hynny yn y Gymru ôl-Gristnogol hon. Wrth gwrs, mae'n rhaid bod yn gybyddus â'r dechnoleg ddiweddaraf i werthfawrogi'r rhan helaeth o'r dewis, ac mae'n gofyn am bwyll ac amynedd i ddod o hyd i'r ddarpariaeth hael sydd wedi ei hulio ger ein bron yng nghrombil y dyfeisiadau.

Rhyw fymryn o'r cynigion a welais i ond clywais ddigon o ganmol i'r gwasanaethau oedd wedi eu paratoi, y rheiny o Gaerfyrddin i Lansannan a'r holl lefydd eraill rhyngddynt ac i'r dwyrain a'r gorllewin. Yn sicr, mae'r ymdrech wedi bod yn un deg a chofio'r amodau.

Mi fentrodd S4C i'r maes yn gynnar iawn, ar gais un o'r gwylwyr, meddai'r pennaeth. Mae'n siŵr ei bod yn ormod iddynt feddwl drostynt eu hunain y byddai'n syniad cynnal Oedfa i wylwyr ffyddlonaf y sianel gael orig o fyfyrdod yng nghanol anfadwch! Serch hynny, rhaid bod yn ddiolchgar am ychydig, a bu unarddeg ar fore Sul yn cyfateb yn ddigon tebyg i'r 10.00 arferol mewn llu o gartrefi.

Profiad chwithig iawn oedd gweld y Parch John Gwilym Jones yn annerch capel gwag ym Moelfre ym Môn yn y darllediad cyntaf. Mae wedi gweld cynulleidfaoedd hynod wan yn y blynyddoedd diweddar ond erioed wedi pregethu i neb, ar wahân i griw camera teledu, o'r blaen mae'n siŵr gen i. Ond roedd hon yn neges amserol gyda chronfa emynau *Dechrau Canu Dechrau Canmol* yn dod i'r adwy yma ac acw, yn arbennig i osgoi cael un pen yn siarad am hydoedd, gwenwyn pur i gynhyrchwyr teledu.

O dipyn i beth cafwyd gwell meistrolaeth ar y telediad unwaith i'r Parch Rhys Llwyd ein cyfarch o'i atig yng Nghaernarfon, neu felly roedd yn ymddangos beth bynnag. Daethpwyd o hyd i ddarllenfa i'w gosod yn y sêt fawr, ac roedd ymdrech i ddangos y sawl oedd yn pregethu o wahanol onglau. Cafwyd cip ar gynnwys y darlleniad a rhai o nodweddion yr adeilad. Ac mi ddaeth camera'r drôn i osod yr adeilad yn ei gyd-destun daearyddol.


Yr unig un a welais oedd yn gwbl wahanol oedd yr Oedfa o ganol y gwair uchel yn olion eglwys Llanfihangel Abercywyn, Sir Gaerfyrddin. Gwnaeth i mi feddwl am ychydig mai dyma ddarlun perffaith o gyflwr ein crefydd, ein bod yng nghanol yr anialwch yn ceisio dweud rhyw air a neb o gwmpas eisiau gwrando.

Ar brydiau wrth wylio mae dyn yn erfyn am rywun i godi ei lais a chyffroi rhywfaint ar y gynulleidfa anweledig. Anghofiwch y sgript a rhowch rywfaint o floedd o argyhoeddiad yn eich neges. Gwn mai'r duedd erbyn hyn yw trin pethau'n dawel braf ond siawns fod angen cadw pobl yn effro a chodi eu clustiau ac i ddweud, ew, mae hwn yn dda. Mi faswn i'n licio clywed mwy o hwn, ac efallai yr a' i i'r capel neu'r eglwys i'w glywed.

Yn bendant mae gofyn codi'r awydd ar bobl i fynd allan eto i le o addoliad. Ac yn fwy na hynny denu rhagor o wynebau newydd atynt. A yw'n gofyn gormod disgwyl eu gweld ar ôl iddynt fod yn gwylio *Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol*?

# Cân yr adar

*gan Gareth Blainey*



Eleni oedd y degfed tro mewn pedair blynedd ar ddeg i "The Lark Ascending" gan y cyfansoddwr o Loegr Ralph Vaughan Williams fod yn 'Rhif Un' yn siart flynyddol gorsaf radio "Classic FM" – "The Classic FM Hall Of Fame". Rhestr o'r darnau o gerddoriaeth glasurol mwyaf poblogaidd ar sail pleidleisiau gan wrandawyr yr orsaf yw'r siart yma. Gwaith ar gyfer feiolin, sy'n portreadu sŵn yr ehedydd wrth godi yn uchel i'r awyr dan ganu, a cherddorfa yw "The Lark Ascending". Perfformiwyd y darn am y tro cyntaf ym 1921 a chafodd cerddoriaeth Vaughan Williams ei hysbrydoli gan gerdd o'r un enw ysgrifennwyd gan y bardd o Loegr George Meredith ym 1881. Mae'r gerdd yn ddarlun byw o godiad yr ehedydd a dyma'r pedair llinell gyntaf:

> "He rises and begins to round,
> He drops the silver chain of sound
> Of many links without a break,
> In chirrup, whistle, slur and shake."

Mae sŵn tebyg i "whistle" - chwiban - aderyn arall i'w glywed yn glir fel cloch ar do fy nhŷ ym Mhontypridd ers dechrau'r cyfnod clo oherwydd bygythiad y coronafeirws. Ar ôl edrych arno'n eistedd yn gartrefol ar y simne ac edrych wedyn ar y we rydw i bron yn sicr mai colomen dorchog - "collared dove" - yw'r aderyn yma sy'n creu sŵn tebyg i'r un y buaswn i neu chi'n ei wneud wrth chwibanu, sŵn 'w w w' gyda mwy o bwyslais ar yr ail 'w' na'r un cyntaf a thrydydd 'w' sy'n fyrrach na'r ddau arall. Mae o'n swnio i fy nghlustiau i yn uwch nag oedd o cyn y cyfnod clo, ond ar ôl imi edrych ar y we rydw i wedi dod i'r casgliad nad ydy'r golomen yn fwy swnllyd nag oedd hi'n arfer bod. Yn ôl canlyniadau recordiadau sain wnaed gan gwmni "24 Acoustics" yn Ne Ddwyrain Lloegr, yn yr ardal honno mae caneuon adar yn gyffredinol i'w clywed yn gliriach ar ôl gostyngiad mawr mewn traffig – hynny yw, nifer y ceir sy'n symud ar y ffordd a nifer yr awyrennau sy'n hedfan yn yr awyr. Mae hynny'n gwneud synnwyr o safbwynt f'ardal i hefyd. Er bod chwiban y golomen yn fy neffro weithiau tua chwech o'r gloch y bore fel cloc larwm diangen dydw i ddim yn flin. Rydw i'n teimlo fod y chwiban yna'n rhywfaint o gysur, fel arwydd bychan fod byd natur yn fyw ac yn iach o fewn y byd ehangach sydd wedi gorfod newid yn aruthrol.



# TUDALEN Y PLANT



## Stori

Un tro roedd yna hogyn o'r enw Deio a rhyw noson cafodd Deio freuddwyd. Breuddwydiodd ei fod yn peintio llun enfys. Yn sydyn, dyma'r lliwiau yn yr enfys yn dechrau siarad.

"Fi ydi'r lliw gorau," meddai Coch. "Dwi'n gryfach a dwi'n ddelach na chi y lliwiau eraill."

"Am lol!" meddai Fioled o ben arall yr enfys.

"Na, wir, o ddifri," mynnodd Coch. "Hen liw gwan ydi Melyn, hen liw diddim ydi Indigo. A fi sydd i gael pob dim gorau, fi sy'n dweud beth sy'n digwydd."

Deffrôdd Deio yn sydyn. Diolch byth mai dim ond breuddwyd oedd o.

Amser brecwast, dywedodd wrth Mam am y freuddwyd ryfedd.

"Wel," meddai mam Deio, "mae pobol yn ymddwyn fel yna weithiau, sti! Maen nhw'n dweud fod pobl efo un lliw croen yn well na'r rhai efo lliw croen arall. Ond cofia di fod pob lliw yn hardd. Mae pawb yn haeddu yr un chwarae teg!"

### Adnod i'w chofio

Dywedodd Iesu Grist:
**Carwch eich gilydd fel dw i wedi'ch caru chi**
(Ioan 15:12 beibl.net)

### Gweddi

*Arglwydd Iesu,*
*helpa ni i garu pawb ac*
*i roi chwarae teg i bawb.*
*Amen.*



## Chwilair lliwiau

– coch, oren, melyn, gwyrdd, glas, indigo, fioled

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | B | DD | H | CH | O | M | FF |
| N | S | R | S | A | L | G | C |
| Y | O | Y | F | I | O | D | O |
| L | R | W | Y | R | E | W | G |
| E | E | G | C | L | A | G | I |
| M | N | C | O | CH | R | M | D |
| G | L | I | S | D | I | U | N |
| W | F | I | O | L | B | TH | I |